

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 24 Mehefin 2019
am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: J Ferry **JF**, J Griffith **JG**, L Jones **LJ**, V Owen **VO**, OG Roberts **OGR**, JA Roberts **JAR**
Cadeirydd, R Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: A Ifan **AI**, C Jones **CJ**, E Jones **EJ**.

2. Datgan Diddordeb: **JG** ynglyn ac eitem 6, y **clerc** ynglyn ac eitem 10.

3. Arwyddo cofnodion cyfarfod: 24 Mehefin 2019

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir. **VO** yn cynnig, **LJ** yn eilio.

4. Materion sy'n codi.

4.1 Cadarnhawyd fod Mr John Rowlands o CSYM wedi bod mewn cysylltiad, a wedi nodi pa rannau o'r waliau sydd angen eu trin, rhai ohonynt ar frys. Ar ol cysidro'r dyfnbrisiau a dderbyniwyd, cytunwyd i'r clerc gwrdd a cwmni HR Hughes yn y fynwent i drafod y gwaith ymhellach. Nodwyd hefyd byddai rhaid gwneud penderfyniad ynglyn ac amserlen y gwaith- unai gwneud y gwaith i gyd ar un adeg, neu cael amserlen fel bod y gwaith brys yn cael ei wneud yn gyntaf, wedyn gweddill y gwaith mewn camau er mwyn rhannu'r gost dros fwy nac un praesept.

4.2 Y clerc wedi hysbysu CSYM o'r sedd wag, ac fe'i hysbysir yn gyhoeddus.

5. Derbyn adroddiadau ynglyn a'r maes chwarae gan cynrychiolydd Ffrindiau Bodedern.

5.1 Y clerc wedi derbyn adroddiad blynyddol ROSPA ac wedi ei yrru ymlaen i **CJ**.

6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio a yrrwyd eisioes. Dim

7. Gohebiaeth i'w adolygu.

7.1 Derbyniwyd manylion cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru 27/6/19 yn Llangefni am 7. Y clerc i fynychu os yn rhydd.

7.2 Derbyniwyd galwad ffon gan Adran Dai CSYM yn cadarnhau bydd y gegin yng nghanolfan Bro'r Ysgol yn cael ei thrin ac ni bydd modd defnyddio'r ganolfan yn y cyfamser. Dyddiadau i'w cadarnhau. Y clerc i wneud ymholiad gyda **EABT** i weld os byddai modd defnyddio'r Capel os bydd angen.



Cyngor Cymuned Bodedern



8. Cyfrifon 2018-19 (Archwiliad Mewnol)

8.1 Cyflwynwyd Cyfrifion 18-19, Cysoniad banc ac adroddiad yr archwilydd mewnol i'r Cyngor (copi yn amguedig i'r cofnodion- atodiad 8.1, Cyf 24619) Y clerch i drefnu i'w gyrru ymlaen i'r archwilydd allanol, BDO.

9. Taliadau i'w gwneud.

| | | | |
|-------------------|---------------------------|---------|-------------------|
| ROSPA | Archwiliad blynyddol Parc | £99.00 | Rhif siec: 200076 |
| Cyflog Clerch | Ebrill/Mai/Mehefin | £480.00 | Rhif siec: 200077 |
| HMRC | Ebrill/Mai/Mehefin | £120.00 | Rhif siec: 200078 |
| Mon Grass Cutting | MGC3027 | £240.00 | Rhif siec: 200079 |

10. Eitemau a ddaeth i sylw'r cyngor gan y cynghorwyr.

10.1 Nododd y cadeirydd materion o bryder ym Mynwent y Plwyf. Mae angen torri'r gwair ar y llwybrau i'w dacluso a'i sgwario, mae un mainc wedi dod yn rhydd ac wedi torri, un mainc wedi hollti, y fainc Mileniwm gyda gor dyfiant gwrychyn o'i chwmpas ac mae sbwriel yn casglu mewn un congol ar y chwith. Nodwyd hefyd efallai fod rhai o'r coed angen sylw ynghyd a'r gwrychynod sydd wedi gor dyfu. **JF** i gysylltu a Mon Grass Cutting i weld os ydynt yn gallu ymgymryd a rhywfaint o'r gwaith. Y **clerc** i wneud ymholiadau ynglyn a gweddill y gwaith.

10.2 **VO** wedi sylwi fod paneli y cysgodfan dros Ffordd i Maes Gwynfa wedi torri. Y clerch i drefnu cael dyfnbris.

10.3 **JF** wedi gweld fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynorthwyo cyngor Llaneilian i gael bina bagiau baw ci a wedi gyrru'r manylion i'r clerch. Y clerch wedi cysylltu a CNC ond heb gael ymateb. Y clerch i wneud ymholiadau pellach.

10.4 **JF** wedi sylwi fod rhai tyllau wedi eu llenwi yng ngwaelod Bron y Graig, ond bod yr arwyddion yno o hyd felly roedd yn aneglur os oedd y gwaith wedi ei gyflawni neu peidio.

10.5 **JG** yn hysbysu'r cyngor fod holiadur wedi ei yrru allan i breswylwyr tai cyngor, ac i annog unrhyw breswylwyr i'w llenwi ar lein neu ar bapur.

10.6 Y Cadeirydd yn nodi fod gor dyfiant yn y coed o'r pwmp tuag at yr Ysgol Gynradd. Y clerch i gesio dod hyd i'r tir feddianwr a chysylltu a nhw.

10.7 Y cadeirydd yn nodi fod un arwydd fflachio wrth yr Ysgol Uwchradd wedi torri. Y clerch i gysylltu a CSYM.

10.8 Nodwyd bydd angen cynrychiolydd newydd o'r cyngor cymuned fel llywodraethwr yn yr Ysgol Gynradd. Cyflwynwyd enw **EJ**. Y clerch i gysylltu a **EJ**.

11. Dyddiad cyfarfod nesaf

22 Gorffennaf 2019



Clerch/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol / mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com